

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Domiciliary Dental Care, Bangor

Dyddiad arolygu: 30 Mai 2019

Dyddiad cyhoeddi: 2 Medi 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	13
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	18
4.	Beth nesaf?	20
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	22
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	23
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	24
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	25

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Domiciliary Dental Care, Bangor, Gwynedd ar 30 Mai 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr AGIC (arweinydd yr arolygiad), un o uwch-arolygwyr AGIC (cysgodi) ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod Domiciliary Dental Care yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion gan staff cyfeillgar, proffesiynol ac ymroddedig.

Cadarnhaodd yr adborth a gawsom fod y cleifion yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarparwyd iddynt.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn dda ac yn bodloni'r rheoliadau perthnasol i sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion.

Gwelsom dystiolaeth fod contractau cynnal a chadw amrywiol ar waith er mwyn sicrhau bod yr offer yn ddiogel ac mewn cyflwr da.

Roedd gweithdrefnau rheoli heintiau yn cyd-fynd â'r canllawiau a'r adnoddau archwilio perthnasol.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Rhoddwyd digon o wybodaeth i gleifion i'w galluogi i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth a gwelsom dystiolaeth fod cleifion yn fodlon ar y driniaeth a'r gwasanaeth a ddarperir
- Gwelsom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn dda a bod systemau effeithiol ar waith i gefnogi rheolwyr ac arweinwyr y practis yn gyffredinol
- Gwelsom fod y cofnodion clinigol o ansawdd da.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau y caiff gwastraff gypswm ei ychwanegu at y cytundeb gwasanaeth gwastraff clinigol.
- Cofnodi'r holl wrthfotigau a brynir gan gynnwys rhifau swp a dyddiadau dod i ben.

Ni nodwyd unrhyw feysydd lle roedd diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Domiciliary Dental Care, Bangor yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Gogledd Cymru.

Mae gan y gwasanaeth dîm o staff sy'n cynnwys un deintydd ac un nyrs ddeintyddol.

Mae'r gwasanaeth yn darparu gofal deintyddol preifat yn y cartref i'r cleifion sy'n gaeth i'w cartrefi a phreswylwyr mewn cartrefi nyrsio / preswyl.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod Domiciliary Dental Care yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion a bod ganddo dîm cyfeillgar, proffesiynol ac ymroddedig.

Cadarnhaodd yr adborth a gawsom fod y cleifion yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarparwyd iddynt.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y gwasanaeth i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir.

Cawsom gyfanswm o 17 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd y mwyafrif o'r holiaduron a gyflwynwyd wedi'u cwblhau gan gleifion a oedd wedi bod yn defnyddio'r gwasanaeth ers dros ddwy flynedd.

Roedd yr adborth gan gleifion yn gadarnhaol iawn ar y cyfan. Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur fod y gofal a'r driniaeth a ddarperir yn ardderchog neu'n dda iawn.

Ymhlith y sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron mae'r canlynol:

"Bob amser yn broffesiynol ac yn gwrtais. Bob amser yn defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn"

"Gwasanaeth gwych, proffesiynol a phersonol"

"Mae gennyf hyder yn y gwasanaeth ac mae'n gyfeillgar"

"Gwasanaeth cyfeillgar iawn"

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gellid gwella'r gwasanaeth. Roedd sylwadau'r cleifion yn gadarnhaol iawn ac yn llawn canmoliaeth. Dywedodd y cleifion:

"Ddim yn siŵr sut y gallai wella, mae'r deintydd yn ymweld yn brydlon ac mae bob amser yn gallu egluro'r triniaethau"

"Nid oes modd iddo wella, mae'n wych fel y mae"

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Cadarnhaodd pob claf a gwblhaodd yr holiadur ei fod wedi llenwi ffurflen hanes meddygol, a/neu fod rhywun wedi cadarnhau ei hanes meddygol, cyn iddo gael unrhyw driniaeth.

Gwelsom dystiolaeth y gofynnwyd i gleifion gwblhau ffurflen hanes meddygol cyn y driniaeth gychwynnol, a holwyd a oedd unrhyw newidiadau ym mhob apwyntiad dilynol er mwyn helpu i sicrhau bod y driniaeth yn cael ei darparu mewn modd diogel.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Gofal ag urddas

Yn ddieithriad, roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn eu bod wedi cael eu trin â pharch pan wnaeth y tîm ymweld â nhw.

Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi teimlo'n rhan o unrhyw benderfyniadau a wnaed am eu triniaeth (cymaint ag yr oeddent am fod yn rhan o hynny) a'u bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael. Yn ogystal, dywedodd pob un o'r cleifion wrthym eu bod wedi cael eu hysbysu am gost unrhyw driniaeth bob amser cyn iddynt gael y driniaeth.

Hefyd, roedd tystiolaeth bod cynlluniau ac opsiynau triniaeth wedi'u nodi yn y sampl o gofnodion cleifion a welwyd gennym. O ganlyniad, roedd cleifion yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth.

Roedd gan y gwasanaeth ei daflen wybodaeth i gleifion ei hun a gwelsom ei bod yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Gan mai dim ond gofal deintyddol preifat yng nghartref y cleifion y mae'r gwasanaeth yn ei ddarparu, gwnaethom argymhell creu ffolder gwybodaeth i gleifion dynodedig i alluogi'r tîm i rannu gwybodaeth â'r cleifion wrth gynnal ymweliadau. Dylai'r ffolder gynnwys y wybodaeth ganlynol i gleifion:

- Datganiad o Ddiben
- Taflen wybodaeth i gleifion

- Tystysgrif cofrestru
- 9 Egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC)¹
- Rhestr brisiau
- Dadansoddiad o adborth cleifion
- Y weithdrefn gwyno
- Tystysgrif yswiriant atebolrwydd Cyflogwyr / Cyhoeddus
- Poster Iechyd a Diogelwch
- Taflenni gwybodaeth am iechyd y geg.

Aeth y prif ddeintydd / perchennog ati i ddatblygu'r ffolder ar unwaith yn ystod ein hymweliad arolygu.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGC wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser. Gall y prif ddeintydd gyfathrebu â chleifion yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Gofal amserol

Dywedodd pob un ond dau o'r cleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe byddai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Roedd rhif ffôn brys ar gyfer y gwasanaeth y tu allan i oriau ar gael i'r cleifion pe byddai angen triniaeth ddeintyddol frys y tu allan i oriau arnynt. Roedd y rhif ffôn wedi'i arddangos yn glir ar y daflen wybodaeth i gleifion.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn ei chael hi'n hawdd iawn neu'n gymharol hawdd cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

¹ <https://standards.gdc-uk.org/>

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwelsom sampl o gofnodion cleifion ac roeddent yn fanwl iawn ac o ansawdd gwyb. Roedd opsiynau triniaeth wedi'u cofnodi a gofynnwyd i bob claf am gydsyniad i driniaeth.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth.

Roedd y triniaethau a'r gwasanaethau a gynigir gan y gwasanaeth yn cyd-fynd â'r datganiad o ddiben.

Hawliau pobl

Nodwyd bod gan y gwasanaeth bolisi cyfle cyfartal penodol ar waith. Golygai hyn fod y gwasanaeth yn ymrwymedig i sicrhau bod pawb yn cael cynnig yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg.

Gwrando a dysgu o adborth

Gwelsom fod gan y gwasanaeth bolisi cwynion ysgrifenedig ar waith. Gwelsom dystiolaeth fod systemau ar waith i gofnodi unrhyw gwynion ffurfiol ac anffurfiol a gyflwynwyd, eu monitro ac ymateb iddynt.

Gwnaethom drafod system y gwasanaeth i gael adborth gan gleifion; mae'r gwasanaeth yn gwneud hyn drwy ddarparu holiaduron i gleifion ar ddiwedd eu triniaeth. Ar ôl dadansoddi'r adborth, caiff y manylion eu trafod â'r tîm deintyddol a gwelsom fod canlyniadau'r arolwg diweddaraf yn hynod o gadarnhaol.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn dda a'i fod yn cyrraedd y safonau perthnasol er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion.

Roedd y cleifion yn cael gofal deintyddol diogel ac effeithiol.

Gwelsom dystiolaeth fod contractau cynnal a chadw amrywiol ar waith er mwyn sicrhau bod cyfarpar yn ddiogel ac mewn cyflwr da.

Roedd gweithdrefnau rheoli heintiau yn cyd-fynd â'r canllawiau a'r adnoddau archwilio perthnasol.

Gwelsom fod y cofnodion clinigol o ansawdd da iawn.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, nodwyd gennym fod trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion roedd y tîm yn ymweld â nhw wrth ddarparu gofal deintyddol yn eu cartrefi.

Roedd gan y gwasanaeth amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau, yn ogystal ag asesiadau risg amrywiol, megis iechyd a diogelwch, legionella, meddyginiaethau, firsau gwastraff gwaed a diogelwch tân. Roedd pob asesiad risg yn gyfredol a gwelsom eu bod yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.

Gwelsom fod polisi dadebru ar waith a bod yr holl staff wedi cael hyfforddiant dadebru cardio-anadlol (CPR)/dadebru brys, yn ogystal â hyfforddiant tân.

Atal a rheoli heintiau

Gwnaethom ystyried y trefniadau sydd ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau. Gwelsom fod gan y gwasanaeth bolisïau a gweithdrefnau trylwyr iawn ar waith a oedd yn cynnwys cyfeirio at hylendid dwylo, trin a thrafod a gwaredu

gwastraff clinigol yn ddiogel, trefniadau cadw tŷ a glanhau a hyfforddiant perthnasol.

Mae'r gwasanaeth yn defnyddio offerynnau untro yn bennaf sy'n golygu nad oes angen cyfleuster dynodedig i lanhau a sterileiddio (dihalogi) offerynnau deintyddol. Rhoddwyd gwybod i ni fod unrhyw offerynnau nad ydynt yn rhai untro yn cael eu dihalogi yn lleol yn Ysbyty Gwynedd. Gwelsom fod yr holl offerynnau'n cael eu trosglwyddo mewn cynwysyddion diogel ac yn cael eu storio a'u dyddio'n briodol. Gwnaethom hefyd nodi fod gan y gwasanaeth amrywiaeth o gyfarpar diogelu personol i amddiffyn staff rhag anaf a/neu haint.

Ar y cyfan, gwelsom fod y gweithdrefnau a ddilynir i lanhau, sterileiddio a storio offerynnau yn cyd-fynd â'r canllawiau arfer gorau diweddaraf.

Gwelsom dystiolaeth fod archwiliadau rheoli heintiau blynyddol wedi cael eu cynnal gan ddefnyddio adnoddau archwilio cydnabyddedig, gan gynnwys adnodd archwilio Deoniaeth Cymru sy'n cyd-fynd â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. Cydnabuwyd bod hyn yn arfer da am fod yr archwiliad yn gynhwysfawr. At hyn, gwelsom fod y prif ddeintydd wedi gwneud gwelliannau yn dilyn yr archwiliad gan newid o ddefnyddio dyfeisiau ailorchuddio nodwyddau i ddyfeisiau miniog mwy diogel.

Roedd trefniadau priodol ar waith yn y gwasanaeth i ymdrin ag anafiadau a achosir gan gyfarpar miniog. Gwelsom gofnodion ynghylch statws imiwrneiddio Hepatitis B pob aelod o'r staff clinigol. Roedd hyn yn golygu bod camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod cleifion a staff yn cael eu hamddiffyn rhag firysau a gludir yn y gwaed.

Roedd gan y gwasanaeth system i reoli gwastraff mewn ffordd briodol a diogel. Roedd contractau ar gael ar gyfer gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig). Fodd bynnag, gwnaethom argymhell y dylid ychwanegu gwastraff gypswm at ei gytundeb contract a chytunodd y prif ddeintydd i wneud hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Sicrhau y caiff gwastraff gypswm ei ychwanegu at y cytundeb gwasanaeth gwastraff clinigol.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y gwasanaeth weithdrefnau a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol ymhlith cleifion. Roedd yr holl staff clinigol wedi cael yr

hyfforddiant dadebru cardio-anadlol (CPR) diweddaraf ac roedd gan y gwasanaeth un swyddog cymorth cyntaf penodedig.

Gwelsom fod y cyffuriau brys yn cael eu storio'n ddiogel. Gwelsom dystiolaeth fod system effeithiol ar waith i wirio'r offer a'r cyffuriau brys er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn barod i'w defnyddio, yn unol â'r safonau a luniwyd gan y Cyngor Dadebru (DU). Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y pecyn argyfwng yn cynnwys holl feintiau gofynnol mygydau ocsigen clir ar gyfer y bag ambu i oedolion ac nid oedd yn cynnwys mwgwd ocsigen i oedolion â chrynodiad uchel ychwaith. Gwelsom fod angen gwasanaethu'r silindr ocsigen hefyd. Ymdriniwyd â'n pryderon ynglŷn â'r pecyn argyfwng ar unwaith yn ystod yr arolygiad. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad A.

Roedd gan y gwasanaeth bolisi ar waith yn ymwneud ag archebu a chofnodi meddyginiaethau a rhoi a chyflenwi meddyginiaethau i gleifion. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell y dylid cadw cofnodion ar gyfer rhoi gwrthfotigau gan gynnwys y rhif swp.

Yr hyn sydd angen ei wella

Cofnodi'r holl wrthfotigau a brynir gan gynnwys rhifau swp a dyddiadau dod i ben.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Gwelsom fod y gwasanaeth wedi cymryd camau i hybu ac amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sy'n wynebu risg.

Roedd polisïau diogelu ar waith i amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd y polisïau'n cynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol ynghyd â siartiau llif manwl a oedd yn hysbysu'r staff am y camau i'w cymryd pe bai mater diogelu yn codi.

Gwelsom dystiolaeth bod yr holl staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd y gwasanaeth wedi penodi aelod o staff i arwain materion diogelu – roedd yn gyfrifol am sicrhau

bod y polisi diogelu yn cael ei ddilyn a gallai roi cyngor ac arweiniad i staff ar faterion diogelu.

Disgrifiodd y prif ddeintydd y gwiriadau cyn cyflogi a fyddai'n cael eu cynnal mewn perthynas ag unrhyw aelodau newydd o staff cyn iddynt ymuno â'r tîm. Roedd hyn yn cynnwys gwirio geirdaon a/neu gynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd² ar staff sy'n briodol i'r gwaith a wneir ganddynt. Gwnaethom gadarnhau bod pob aelod o staff wedi cael gwiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'u bod wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Gwnaethom edrych ar yr holl gyfarpar clinigol a ddefnyddiwyd a gwelsom fod y cyfarpar yn ddiogel, mewn cyflwr da ac yn addas at y diben y caiff ei ddefnyddio.

Nid yw'r gwasanaeth yn defnyddio unrhyw gyfarpar radiolegol (pelydr-x). Fodd bynnag, gwelsom dystiolaeth fod y prif ddeintydd a'r nyrs ddeintyddol wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar ymbelydredd ïoneiddio.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd yn amlwg bod y gwasanaeth yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Roeddem yn gallu gweld bod archwiliadau perthnasol wedi cael eu cwblhau a/neu eu trefnu gan y gwasanaeth megis; cofnodion y cleifion, croesheintio, rhagnodi gwrthfotigau ac adborth gan gleifion.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Wrth drafod â'r prif ddeintydd, dywedwyd wrthym fod staff clinigol wedi cymryd rhan mewn adolygiadau cymheiriaid sy'n cyfrannu at ansawdd a diogelwch y

² Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel ac atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant. Mae'n cymryd lle'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol.

gofal a roddir i gleifion. Gwelsom fod y gwasanaeth wedi cwblhau Archwiliad Clinigol ac Adolygiad gan Gymheiriaid (CAPRO) Deoniaeth Cymru.³

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n briodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Roedd polisi diogelu data ar waith er mwyn hysbysu staff o'r hyn sy'n ofynnol iddynt ei wneud.

Cadw cofnodion

Adolygwyd sampl o gofnodion cleifion. Ar y cyfan, roedd tystiolaeth bod y gwasanaeth yn cadw cofnodion clinigol o ansawdd da iawn, sy'n dangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant cleifion.

Ym mhob achos, roedd y cofnodion a adolygwyd gennym wedi'u teilwra'n unigol ar gyfer y claf hwnnw ac yn cynnwys dynodyddion cleifion priodol, hanes deintyddol blaenorol a rheswm dros yr ymweliad. Roedd y cofnodion yn glir iawn, yn ddarllenadwy ac o ansawdd rhagorol. Gwelsom dystiolaeth gliriach o ganllawiau 'Delivering Better Oral Health' ym mhob set o nodiadau. Gwelsom asesiadau risg manwl ar gyfer pob claf a gwnaethom nodi hyn fel arfer da.

³ <https://dental.walesdeanery.org/improving-practice-quality/carro>

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom fod gan Domiciliary Dental Care arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Gwelsom fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn nifer o feysydd a oedd yn helpu i sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf i'w helpu yn eu gwaith.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar waith.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Gwelsom fod gan y gwasanaeth arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Gwelsom fod y prif ddeintydd yn glir ac yn wybodus am ei rôl a'i gyfrifoldebau. Roedd y staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'w cleifion ac ategwyd hyn gan ystod o bolisïau a gweithdrefnau. Gwelsom dystiolaeth fod y staff wedi llofnodi'r polisïau i gadarnhau eu bod wedi'u darllen a'u deall. Roedd pob polisi a gweithdrefn yn cynnwys dyddiad adolygu a chawsant eu hadolygu'n rheolaidd. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd y fersiynau o'r polisïau a'r gweithdrefnau wedi'u rheoli. Tynnwyd sylw'r prif ddeintydd at hyn, a roddodd sicrwydd i ni y caiff pob fersiwn o'r polisïau a'r gweithdrefnau ei rheoli'r tro nesaf y caiff ei hadolygu.

Gwelsom gopi o'r Datganiad o Ddiben a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol yn ôl Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru i ymarfer â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemniad priodol ar waith ar ei gyfer. Roedd gan y gwasanaeth dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus gyfredol hefyd.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Nodwyd gennym fod gan yr aelodau o'r staff gontract cyflogaeth a oedd yn cael ei gadw yn ffeiliau'r staff. Gwelsom hefyd dystiolaeth fod arfarniadau staff yn cael eu cwblhau.

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau ac yn bodloni'r gofynion o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).

Dywedwyd wrthym fod y gwasanaeth yn cynnal cyfarfodydd tîm rheolaidd a gwelsom fod cofnodion manwl yn cael eu cadw.

Mae Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 yn ei gwneud yn ofynnol, ar adeg cofrestru, i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru feddu ar dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a gyhoeddwyd o fewn y tair blynedd flaenorol. Fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad, gwelsom dystiolaeth fod gwiriadau clirio DBS wedi'u cynnal ar gyfer y prif ddeintydd a'r nyrs ddeintyddol.

Cadarnhaodd y darparwr cofrestredig ei fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau a'i rwymedigaethau o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rhoddwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os byddwn yn nodi unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, hysbysir darparwr cofrestredig y gwasanaeth drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried i ba raddau y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Amlygiad Meddygol\) 2000](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Gwelsom nad oedd y pecyn argyfwng yn cynnwys holl feintiau gofynnol mygydau ocsigen clir ar gyfer y bag ambu i oedolion ac nid oedd yn cynnwys mwgwd ocsigen i oedolion â chrynodiad uchel ychwaith. Gwelsom fod angen gwasanaethu'r silindr ocsigen hefyd.	Roedd hyn yn golygu y byddai oedolion mewn perygl pe bai argyfwng.	Tynnwyd sylw'r prif ddeintydd / perchennog at hyn, a drefnodd i'r eitemau gael eu prynu ar unwaith.	Archebodd y prif ddeintydd / perchennog yr eitemau ar unwaith ar ddiwrnod ein harolygiad i'w dosbarthu drannoeth.

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Domiciliary Dental Care

Dyddiad arolygu: 30 Mai 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr adolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion yn ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth yr oedd angen mynd i'r afael â nhw ar frys yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Domiciliary Dental Care

Dyddiad arolygu: 30 Mai 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Dd/G				
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Sicrhau y caiff gwastraff gypsum ei ychwanegu at y cytundeb gwasanaeth gwastraff clinigol.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi, WHTM 01-05	Bydd y gwasanaeth yn cysylltu â Initial Medical PLC (darparwr gwasanaeth casglu gwastraff clinigol) ac yn archebu'r cynwysyddion priodol. Caiff cytundeb gwastraff y cyngor ei addasu er mwyn sicrhau y bydd yr holl wastraff peryglus a gesglir yn y dyfodol yn cynnwys gwastraff gypswm.	Mr I G Hughes Rheolwr Cofrestredig	Gwnaeth y cynwysyddio n gwastraff newydd gyrraedd ar 11 Mehefin 2019 ac maent bellach yn cael eu

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
				defnyddio.
Cofnodi'r holl wrthfotigau a brynir gan gynnwys rhifau swp a dyddiadau dod i ben.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau; PDR4d	Mae cofnodlyfr newydd bellach yn cael ei ddefnyddio i gofnodi'r holl wrthfotigau a brynir, gan gynnwys enw'r cynnyrch, rhif swp, dyddiad dod i ben ac enw'r cwmni y prynwyd y gwrthfotigau oddi wrtho.	Mr I G Hughes Rheolwr Cofrestredig	Prynwyd cofnodlyfr ar 1 Mehefin 2019 ac mae bellach yn cael ei ddefnyddio.
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Dd/G				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): MR I G HUGHES

Swydd: Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 15 GORFFENNAF 2019